Camlas Maldwyn:
Adfywio trwy Adfer Cynaliadwy

Crynodeb

Partneriaeth Camlas Maldwyn

Medi 2005

Gyda chyllid gan

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

CAMLAS MALDWYN

CYFLWYNIAD

Crynodeb yw'r ddogfen hon o strategaeth rheoli cadwraeth (CMS) lawer mwy ar gyfer Camlas Maldwyn, a gyhoeddwyd yn 2005, i ddarparu fframwaith ar gyfer adfer y Gamlas yn y dyfodol. Mae'r brif ddogfen ar y wefan www.britishwaterways.co.uk, mewn llyfrgelloedd a swyddfeydd cynghorau lleol, neu ar gael ar gais gan Ddyfrffyrdd Prydain fel CD-ROM.

Bwriad y crynodeb hwn yw darparu ffordd haws o ddeall prif egwyddorion y CMS a rhoi arweiniad i'r hyn sydd i'w gael yn y brif ddogfen. Mae'r holl bwyntiau sy'n cael eu gwneud yn y crynodeb hwn yn y brif ddogfen ei hun, a cheir cyfeiriadau pellach hefyd at ddeunydd cefndir.

Mae'r Strategaeth yn ceisio cynnwys pob agwedd ar etifeddiaeth adeiledig a naturiol y gamlas a choridor y gamlas, a'r defnydd mae'r gymuned leol yn ei wneud ohoni i hamddena. Mae'r elfen hamdden yn cynnwys cerdded, beicio, pysgota a chanŵio, yn ogystal â chychod camlas traddodiadol. Fel fframwaith cyffredinol i'r holl waith adfer, mae'r Strategaeth hefyd yn trafod swyddogaeth y gamlas o ran adfywio gwledig, ac mae'r ddogfen hon yn amlygu rhai o'r datblygiadau lleol posib.

Lluniwyd y weledigaeth hon dan arweiniad Partneriaeth Camlas Maldwyn, sydd â chynrychiolwyr eang ac amrywiol, yn cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau cadwraeth a grwpiau dyfrffyrdd. Mae'r gamlas yn agos at galon llawer o bobl; mae'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol am ei bywyd gwyllt, mae yna 127 o adeiladau ac adeileddau cofrestredig ar ei glannau, ac mae wedi'i chynnwys yn rhestr blaenoriaethau cenedlaethol Dyfrffyrdd Prydain ar gyfer gwaith adfer.

I ddenu arian ar gyfer y gwaith, sef £41miliwn ar gyfer Cam 1, bydd rhaid dangos i sefydliadau cyllido fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Advantage West Midlands ac Awdurdod Datblygu Cymru, fod y cynlluniau yn cael eu cefnogi gan yr holl bartïon â buddiant. Mae'r 13 sefydliad sy'n perthyn i'r Bartneriaeth yn cefnogi'r egwyddor o adfer y Gamlas, a chafwyd ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol yn haf 2003. Cyhoeddwyd strategaeth ddrafft ym Mawrth 2004. Yn dilyn newidiadau a gwelliannau pellach, mae'r bartneriaeth bellach wedi cytuno a rhoi sêl ei bendith i'r dogfennau terfynol.

Aelodau Partneriaeth Camlas Maldwyn

Dyfrffyrdd Prydain
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
English Nature
Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewnol
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn
Cyngor Sir Powys
Cymdeithas Camlas y Shropshire Union
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Cadw: Henebion Cymru
English Heritage
Asiantaeth yr Amgylchedd
Ymddiriedolaeth Adfer Dyfrffyrdd Sir Drefaldwyn
Cyngor Bwrdeistref Croesoswallt
Cyngor Sir Amwythig
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Amwythig

Bydd y Strategaeth yn cael ei defnyddio fel sail ar gyfer gwaith rheoli ac adfer yn y dyfodol ac ar gyfer cyflwyno cyfres o geisiadau cyllido ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud.

Clawr blaen: Cwch camlas y 'Saturn', Camlas Maldwyn, Medi 2005 © Harry Arnold / Waterway Images 01283 790447

GWAITH ADFER UNIGRYW A CHYNALIADWY AR GYFER ADFYWIO

Mae yna ymgyrch barhaus wedi bod ar y gweill i geisio adfer mordwyaeth ar Gamlas Maldwyn ers 1969, ond ar adegau mae'r cynlluniau adfer wedi gwrthdaro â buddiannau eraill, yn enwedig buddiannau gwarchod natur. Fodd bynnag, mae yna lawer o resymau dros beidio â derbyn y trefniadau cyfredol, gyda rhannau o'r gamlas yn bosib i'w mordwyo, rhannau wedi'u blocio gan bontydd ffyrdd gostyngol, a rhai rhannau yn hollol sych.

Rhesymau dros adfer

- Nid yw'r rhan o gamlas y Trallwng y gellir ei mordwyo wedi ei chysylltu â gweddill rhwydwaith y dyfrffyrdd mewnol ac nid yw'n ddigon hir i gefnogi busnesau camlas hyfyw yn yr hirdymor.
- Heb reoli cadarnhaol, byddai buddiannau gwarchod natur yn dirywio, a'r dreftadaeth adeiledig hefyd yn dirywio'n araf.
- Mae'r gymuned leol yn meddwl y byd o'r gamlas ond nid yw'n cael ei defnyddio ddigon gan bobl leol ac ymwelwyr.
- Fel gyda'n holl ddyfrffyrdd mewnol, mae iddi botensial mawr i sbarduno adfywio a thwf economaidd, trwy ddenu ymwelwyr i'r ardal a darparu manteision ehangach i'r bobl sy'n byw gerllaw.

Cafwyd cefnogaeth frwd i adfer y gamlas, gyda mesurau diogelwch gofalus, a bwriedir i'r strategaeth hon fapio ffordd ymlaen, a darparu atebion ymarferol a fydd yn datrys tensiynau blaenorol rhwng gwahanol fuddiannau. Roedd parodrwydd i rannu a deall gwerthoedd a buddiannau eraill yn bwysig felly. Mae Partneriaeth Camlas Maldwyn wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r ddealltwriaeth honno, o fewn y Bartneriaeth ac mewn cylchoedd ehangach, ac wedi cytuno ar ffordd ymlaen ar y cyd yn seiliedig ar y thema gyffredinol o adfer cynaliadwy. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn mynd ymhellach na llawer o gynlluniau cadwraeth, gan ei bod yn cynnwys materion o fudd economaidd a chymdeithasol o'r dechrau. Mae'r materion hyn yn bwysig i lawer o drigolion lleol.

Mae angen dyfodol cynaliadwy ar y gamlas – lle mae ei gwerthoedd yn cael eu diogelu, eu datblygu a'u mwynhau mewn fframwaith economaidd hyfyw. Fel adnodd gwerthfawr i'w rannu – dyna sut y gwelir dyfodol hirdymor y gamlas. Mae mordwyo cynaliadwy a chychod yn rhan annatod o gamlas fyw, weithredol. Mae'r dreftadaeth adeiledig a'r dreftadaeth naturiol wedi ymblethu'n gymhleth, a dyfodol y ddau yn dibynnu ar gefnogaeth y gymuned leol.

Dyma elfennau allweddol y weledigaeth ar gyfer dyfodol Camlas Maldwyn:

- **Adnodd cymunedol, sy'n cael ei werthfawrogi a'i ddefnyddio gan bawb**
- **Coridor o gyfle a fydd yn darparu symbyliad ar gyfer adfywio gwledig**
- **Gwaith adfer i'r mordwyo sy'n parchu gwerthoedd ac yn gwella natur unigryw Camlas Maldwyn**
- **Cynaliadwyedd yn ganolog i'r holl waith rheoli a datblygu.**

Dylai'r Bartneriaeth ddefnyddio'r ddogfen hon fel modd o sicrhau'r cyllid allanol mawr sy'n angenrheidiol i gyflawni nodau a pholisïau'r strategaeth. Mae'n seiliedig ar gydbwysedd sy'n cydnabod a gwarchod buddiannau cadwraeth, ac sy'n ceisio proses wedi'i harwain gan y gymuned.

Y GWAITH ADFER HYD YN HYN, RHAI DYDDIADAU A CHERRIG MILLTIR



GWNEUD Y GWAITH ADFER MEWN CAMAU

Mae'r costau mawr cysylltiedig yn golygu y bydd y gwaith o adfer y gamlas, mae'n debyg, yn cael ei wneud mewn camau. Y flaenoriaeth gyntaf yw ailgysylltu hyd mordwyol y gamlas yn y Trallwng, trwy Lanymynech, i uno â'r adran ogleddol yng Nglanfa Gronwen, ger Llysfeisir, a chysylltu felly â'r rhwydwaith cenedlaethol.

Mae'n debyg y bydd hyn yn cael ei wneud mewn dau gam gwahanol, Cam 1: Lloegr a Cham 1: Cymru. Bydd hyn yn cael effaith fawr ar yr economi, gan y bydd adfer wyth milltir o gamlas yn cysylltu gydag unarddeg milltir pellach nad yw'n cael ei ddefnyddio ddigon ar hyn o bryd.

Bydd yn rhaid i'r gwaith o adfer y rhan ddeheuol (Cam 2: Cymru) ddilyn fel cam neu gamau diweddarach. Bydd cael gafael ar arian yn dibynnu ar lwyddiant Cam 1; llwyddiant a ddylai ddangos ei bod hi'n bosib gwireddu ein gweledigaeth o gamlas fyw, sy'n gwarchod gwerthoedd pawb.

Ochr yn ochr â'r gwaith peirianneg mawr ac yn ategu'r gwaith hwnnw, bydd y Bartneriaeth yn ceisio gwneud gwelliannau bychain i'r amwynder yn lleol, er enghraifft gwelliannau i'r llwybr troed ac arwyddion lleol; credwn y bydd mwy o fynediad a defnydd gan bobl leol yn cefnogi ac atgyfnerthu'r achos dros waith adfer mawr pellach.

Bydd yn rhaid sicrhau amrywiaeth o grantiau fel y gellir talu am gostau cyfalaf y gwaith adfer, a bydd y grantiau hyn yn debyg o gynnwys ffynonellau treftadaeth, awdurdodau lleol a phecynnau adfywio economaidd. Bydd hyn yn golygu y bydd cynnydd yn dibynnu ar yr arian sydd ar gael, ac nid yw'n bosib rhoi amserlenni penodol. Fodd bynnag, bydd y Bartneriaeth yn defnyddio'r strategaeth fel sail i gyfres o geisiadau cyllido yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.



Gwaith peirianneg mawr

Cydnabyddir y bydd gwaith peirianneg yn effeithio ar drigolion lleol yn ystod y gwaith adeiladu, a rhai newidiadau ar ôl hynny, ac felly mae'n hollbwysig rhestru'r prif waith sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae'r rhain wedi'u dangos ar y mapiau ar dudalennau 12 i 15. Mae'r Bartneriaeth wedi ymrwymo i gydweithio'n agos â chymunedau lleol yn ystod y gwaith adfer er mwyn tarfu cyn lleied â phosib arnynt.

Y DIRWEDD A'R DREFTADAETH ADEILEDIG

Mae'r **dirwedd fodern** yn ganlyniad i brosesau naturiol a addaswyd gan ganrifoedd o ddylanwadau dynol, o aneddiadau cynnar ac amaethyddiaeth, i newidiadau'r chwyldro diwydiannol. Adlewyrchir hyn yn natblygiad y gamlas, sy'n torri trwy'r dirwedd naturiol ac yn darparu elfen unedig ar hyd coridor y gamlas. Mae gwaith adfer a gwella'r gamlas yn gofyn am olwg ehangach sy'n cynnwys y gamlas ei hun a'i lleoliad. Mae'r dirwedd a'r dreftadaeth adeiledig yn gofyn am barchu nodweddion lleol, defnyddio deunyddiau lleol a gwneud gwaith adfer addas o ran maint a natur i'r cyffiniau.

Mae'r coridor ehangach yn cynnwys amrywiaeth o fryngaerau ar y gororau, ond mae'r **adnodd archeolegol** yn gymharol wael ger y gamlas, gyda llawer o safleoedd wedi'u dinistrio neu'n cuddio o dan amaethyddiaeth fodern, felly mae'n bwysig gwarchod y safleoedd sy'n weddill. Mae'r rhan fwyaf yn eiddo i dirfeddianwyr, ond bydd angen atal mynediad iddynt yn ystod gwaith adeiladu, rhaglenni carthu camlesi, a lleoli gwarchodfeydd natur newydd.

Mae'r **dreftadaeth adeiledig** yn cynnwys eglwysi canoloesol a nifer o ystadau mawr, gyda Chastell Powys a'i Ystad y mwyaf blaenllaw ohonynt. Roedd yr ystadau'n allweddol i waith adeiladu Camlas Maldwyn, wedi'u hysgogi gan awydd i symud calch ar gyfer gwella amaethyddiaeth a rhywfaint o ewyllys da tuag at eu tenantiaid o bosib. Yn ogystal ag adeiladau ac adeileddau'r gamlas, mae yna lawer o olion o oes y calchfaen, gydag odynau i'w gweld ar hyd y gamlas, a gwaith mawr yn Llanymynech, y ffynhonnell. Mae cynlluniau gwahanol i ddatblygu Ardal Dreftadaeth Llanymynech ("Limestone Lives") yn asio'n dda gyda'r gwaith o adfer y gamlas, a Llanymynech fel cyrchfan bwysig i gychod ymwelwyr.

Mae dros 120 o adeiladau neu adeileddau cofrestredig ar hyd y gamlas. Yr hyn sydd o werth arbennig o gymharu â llawer o gamlesi eraill yw bod cyfran uchel o'r adeileddau gwreiddiol yn dal i sefyll. Mae dehongli a sicrhau mynediad i'r dreftadaeth adeiledig yn y coridor ehangach yn un o nodau allweddol "hamdden a thwristiaeth gynaliadwy" y gamlas yn y dyfodol.

Egwyddorion allweddol i'r Dreftadaeth Adeiledig a'r Dirwedd

- **Diogelu adeileddau'r gamlas fel rhan o heneb weithredol**
- **Defnyddio deunyddiau lleol**
- **Gwaith adfer drwy ymyrryd ar raddfa fach**
- **Deunyddiau a thechnegau traddodiadol, yn cynnwys leiniwr clai ar gyfer sianel y gamlas**
- **Dynodi'r gamlas a rhai adeiladau cysylltiedig fel ardal Gadwraeth**
- **Cefnogi defnydd darbodus o hen adeiladau**
- **Gwarchod y llwybr i'r Drenewydd**
- **Partneriaeth gydag awdurdodau lleol a thirfeddianwyr. Cynllun grantiau bach posib.**
- **Cefnogi Tir Gofal a Stiwardiaeth Amgylcheddol, a chynlluniau dilynol, ar ffermydd yng nghoridor y gamlas.**

GWARCHOD NATUR

Mae'n dra phosib mai Camlas Maldwyn yw'r gamlas orau ym Mhrydain o ran gwarchod natur, ac mae holl ran Cymru o'r gamlas a rhan o'r gamlas yn Lloegr wedi'u dynodi fel Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r gamlas yng Nghymru hefyd wedi'i nodi fel ymgeisydd am Ardal Cadwraeth Arbennig (dynodiad Ewropeaidd). Yr hyn sydd o ddiddordeb arbennig yng Nghamlas Maldwyn yw'r amrywiaeth o blanhigion dŵr prin, yn cynnwys y Llyriad Nofiadwy a'r Dyfrllys Camlaswellt. Mae'n bwysig hefyd o ran anifeiliaid di-asgwrn-cefn fel gwas y neidr, ac eraill a llygod dŵr o dro i dro. Mae cyfran uchel o elyrch mud Cymru yn magu ar y gamlas.

Mae'r bywyd gwyllt wedi ffynnu ers cau'r gamlas ar gyfer mordwyaeth, ac mae'r planhigion dŵr yn arbennig o sensitif i amhariad gan gychod, ond ni fyddant yn ffynnu yn yr hirdymor os yw'r gamlas yn cael ei gadael i natur. Dyn a greodd y gamlas, ac o'i gadael fe fyddai'n troi'n gors ac yn goetir yn y pen draw.

Mae'r Bartneriaeth yn ymrwymedig i ddiogelu bywyd gwyllt y gamlas, a bydd yn monitro newid a datblygiadau yn flynyddol, i sicrhau bod hyn yn digwydd. Trwy warchod poblogaethau'r rhywogaethau mwyaf sensitif, credwn y bydd rhai planhigion ac anifeiliaid sy'n gallu addasu hefyd yn dod â budd wrth warchod natur. Bydd mesurau cadarnhaol yn cael eu cymryd hefyd i adfer rhai o'r rhywogaethau lleol pwysig i'w cwmpas hanesyddol ehangach ar y gamlas, i wrthdroi peth o'r dirywiad a welwyd yng Nghymru ers yr 1980au.

Egwyddorion allweddol i Fywyd Gwyllt

- **Bydd bywyd gwyllt yn cael ei ddiogelu trwy waith adfer a defnydd o'r gamlas yn y dyfodol.**
- **Bydd buddiannau bywyd gwyllt yn cael eu monitro'n flynyddol, a'r gwaith o reoli'r gamlas yn cael ei addasu i sicrhau bod bywyd gwyllt yn cael ei warchod.**
- **Bydd y buddiannau hyn yn cael eu mesur ar gyfer y gamlas a'i gwarchodfeydd natur cysylltiedig i sicrhau bod y gwerth cyffredinol yn gwella.**
- **Mae ansawdd y dŵr yn allweddol i gynnal buddiannau coridor y gamlas.**
- **Mae angen sefydlu'r gwarchodfeydd yn llwyddiannus a'u monitro'n ofalus i sicrhau cynnydd yn y lefelau mordwyo, a bydd hyn yn dechrau ar lefel is na'r lefelau targed.**
- **Byddwn yn gweithio i gefnogi cynlluniau bywyd gwyllt eraill yng nghoridor y gamlas, yn enwedig pan fyddant yn helpu i ail-greu safleoedd gwlyptir a phyllau gwreiddiol.**

Crynodeb o waith penodol

- Bydd amrywiaeth o warchodfeydd natur newydd yn cael eu creu i ddarparu cynefinoedd ychwanegol mor bell i'r de ag Aberriw. Bydd y gwarchodfeydd newydd hyn wedi'u gwasgaru dros ystod o safleoedd yng Nghymru, a fydd yn cwmpasu dau ddeg saith erw o gynefin dŵr. Mae yna lawer mwy o safleoedd sydd o bosib yn addas nag sydd ei angen. Bydd safleoedd yn cael eu prynu trwy drafod â thirfeddianwyr sydd â diddordeb. Bydd y gwaith adfer i'r de o Garthmyl yn golygu creu gwarchodfeydd natur eraill. Yn Lloegr, bydd un warchodfa natur fawr yn cael ei chreu, yn cwmpasu unarddeg erw o gynefin dŵr, ger gwarchodfa Aston mae'n debyg.
- Bydd rhwystrau cychod a sgriniau llaid o bosib yn cael eu darparu ar hyd rhai rhannau lletach o'r gamlas e.e. pyllau troi segur i gadw rhai planhigion dŵr yn y gamlas.
- Bydd planhigion sy'n byw ar ochr y gamlas yn cael eu gwarchod lle bo'n bosib ar hyd y glannau.
- Rheoli llwybrau halio, gwrychoedd ac ardaloedd tir sych ar gyfer blodau gwyllt eraill ac anifeiliaid.
- Mesurau gweithredol i wella ansawdd y dŵr.
- Bydd angen i gychod masnachol y gamlas fod yn eco-gyfeillgar. Bydd yn rhaid i bob cwch gydymffurfio â chyfyngiadau cyflymder lleol a mesurau rheoli eraill mewn ardaloedd sensitif.
- Lefelau mordwyo wedi'u rheoli yng Nghymru.

DŴR

Trafnidiaeth ddŵr yw sail llawer o dreftadaeth adeiledig y gamlas a bywyd gwyllt a phlanhigion y dŵr yw'r prif ddiddordeb cadwraethol. Mae'r gofynion sylfaenol ar gyfer defnydd y gamlas yn y dyfodol, ansawdd y dŵr a'i adnoddau yn cysylltu gwerthoedd a defnydd o'r gamlas yn y dyfodol.

Ansawdd y dŵr

Mae dŵr o ansawdd yn hanfodol i warchod natur, a byddwn yn mynd ati'n ddiwyd i'w gynnal a'i wella:

- Llunio rhaglen garthu mewn camau i leihau llaid a mwd rhag cymylu'r dŵr.
- Ffensio'r glannau ar yr ochr allan i atal anifeiliaid rhag torri trwy ochrau'r gamlas.
- Delio â ffynonellau llygredd dŵr.
- Ceisio uwchraddio gwaith trin carthffosiaeth Croesoswallt.
- Gosod loc ger Pant, gyda chwymp bas iawn, i wahanu cyflenwadau dŵr o Loegr i Ardal Gadwraeth Arbennig Cymru.

Adnoddau dŵr

Ar hyn o bryd, mae dŵr yn cael ei gyflenwi o dri phrif bwynt: Camlas Llangollen ar gyfer rhan Lloegr o'r gamlas, ffos gyflenwi Tanad ar ben gogleddol rhan Cymru o'r gamlas, a ffos Penarth ger y Drenewydd yn y de.

- Bydd y cyflenwadau cyfredol yn galluogi hyd at 5,000 o gychod i symud bob blwyddyn yn Lloegr.
- Mae'n bosib newid y cyflenwad o amgylch Pant i gadw'r gwahanol fathau o ddŵr o Loegr ac Afon Tanad ar wahân.
- Mae angen gwneud rhywfaint o waith ar sianel y gamlas i sicrhau bod yna gyflenwadau dŵr yng Nghymru ar adeg o lif isel, gan gynnwys lleihau achosion o ddŵr yn gollwng.
- Os yw'r gwaith adfer yn ehangu i'r Drenewydd, bydd angen cyflenwad ychwanegol ar gyfer y darn sych uwchben Loc Freestone.

Mae ansawdd y dŵr yn fater pwysig i Gamlas Trefaldwyn hefyd, ac mae wedi cyfrannu at ei bywyd gwyllt arbennig. Felly, mae'r mesurau gwarchod natur yn cynnwys nifer o gynigion i warchod a gwella ansawdd dŵr y gamlas.

MORDWYO

Mordwyo

Bydd mordwyo yn cael ei gynyddu'n raddol i'r lefel uchaf bosib gan sicrhau ei fod yn gydnaws â gwarchod treftadaeth naturiol a threftadaeth adeiledig y gamlas. Ar hyn o bryd, credir y bydd hyn yn 2,500 o symudiadau cychod y flwyddyn yng Nghymru, yn amodol ar fonitro blynyddol. Yn Lloegr, bydd y terfynau cyfredol ar fordwyo'n cael eu codi, ar ôl i'r warchodfa natur newydd gael ei chreu a'i sefydlu i safon lawn. Ar y pwynt hwn, bydd y cyflenwad dŵr yn penderfynu faint o fordwyo sy'n bosib. Mae'r ffigurau hyn yn llawer is na Chamlas Llangollen gerllaw, ond yn debyg iawn i rai camlesi gwledig eraill, er enghraifft llawer o Gamlas Leeds a Lerpwl.

Gellir rheoli nifer symudiadau'r cychod ar y gamlas trwy nifer o fesurau yn cynnwys:

- Mynediad wedi'i reoli yn Lociau Frankton.
- System i reoli nifer y cychod sy'n parhau â'u taith i Gymru o Lanymynech.
- Lleoliad dethol o angorfeydd preifat a chyfleusterau llogi neu dripiau masnachol.

Mae angen sicrhau cydbwysedd hefyd rhwng cychod ymwelwyr, cychod preifat wedi'u hangori'n lleol a chychod i'w llogi. Bwriedir cynnal nifer y cychod sy'n ymweld o Gamlas Llangollen, ac edrych ar gael mwy o gychod wedi'u hangori ar y gamlas, gan fod hyn dod â mwy o elw i'r economi lleol.

Mordwyo cynaliadwy

- Mae modelau symudiadau cychod yn awgrymu y bydd yna 150 angorfa breifat ar hyd y gamlas, ond gall mwy o fusnesau llogi gyfyngu hyn i 100 o bosib. Bydd mwy yn Lloegr na Chymru.
- Bydd yr angorfeydd yn fach, nid yn farinas mawr, a byddwn yn annog cynlluniau i arallgyfeirio ffermydd.
- Bydd y bartneriaeth yn annog a chefnogi'r cynlluniau cychod gorau posib, gan y bydd cynlluniau da yn cynyddu nifer y cychod a all ddefnyddio'r gamlas. Er enghraifft, bydd yn rhaid i holl gychod masnachol y gamlas fod yn eco-gyfeillgar, ac fe roddir ffafriaeth i gychod teithiau wedi'u tynnu â cheffyl.
- Bydd y Bartneriaeth yn cefnogi pob cynllun sy'n annog mynediad ehangach i fordwyaeth y gamlas, er enghraifft Ymddiriedolaeth Heulwen a'i chychod taith ar gyfer pobl anabl a'r Shropshire Paddlesports.

Monitro yn sail i reoli

- Er mwyn sicrhau dull cyson a chynaliadwy, bydd niferoedd yn cynyddu o lefel isel, mewn ymateb i ganlyniadau o'r rhaglen fonitro.
- Mae angen i reolwyr ddarparu sicrwydd a pharhad i weithrediadau masnachol sy'n unol ag amcanion y gwaith adfer, er mwyn cyflawni'r manteision economaidd disgwyliedig. Bydd Dyfrffyrdd Prydain yn trafod cytundebau masnachol ar gyfer cynlluniau o hyd digonol i sicrhau parhad ac elw o fuddsoddiadau cyfalaf allanol mawr. Ni fydd y cynigion hyn felly'n llwyddo os yw mordwyaeth gynaliadwy yn cael ei chyfaddawdu.
- Bydd niferoedd a lleoliadau angorfeydd preifat yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Y bwriad yw eu cynyddu'n raddol, ond yn unol â chanlyniadau monitro yn unig.

Defnyddwyr dŵr eraill

Bydd y Bartneriaeth yn parhau i hyrwyddo a datblygu canŵio a mathau eraill o fordwyo. Y prif bethau fydd:

- Shrophsire Paddlesports yn Queen's Head (yn cynnwys cyfleusterau i'r anabl).
- Mwy o ddefnydd posib o'r gamlas i'r de o Garthmyl.
- Gosod llithrfa yn fuan ym Mrynderwen ar gyfer cychod trelar.
- Parhau i gynnal y 'dinghy dawdle' blynyddol i hyrwyddo'r gamlas a'r gwaith adfer parhaus.

MYNEDIAD A DEFNYDD Y GYMUNED

Mae llawer mwy o bobl yn manteisio ar y gamlas ar droed nag ar gwch ac mae'n rhaid i'r gwaith adfer ddiwallu anghenion y bobl hynny. Mae datblygu'r gamlas ymhellach ar gyfer defnydd o bob math yn rhywbeth yr ydym yn awyddus iawn i'w wneud ac yn allweddol i'r dyfodol. Mae lefelau defnyddio cyfredol gan gerddwyr sy'n defnyddio'r gamlas ar hyn o bryd yn amrywio, gan fod mor uchel â 1,500 yr wythnos yn y Trallwng. Mae profiad o gynlluniau adfer eraill yn nodi y gallai hyn gynyddu 50-100% ar ôl y gwaith adfer. Fodd bynnag, mae'r gwaith adfer hyd yn hyn wedi dangos fod trigolion lleol yn gwerthfawrogi tawelwch a llonyddwch y gamlas, felly mae'n rhaid i'r gwaith adfer a datblygu fod yn gydnaws â hyn a pharchu cymeriad gwledig y gamlas.

Rhai cynigion allweddol

Cerdded
- Canolbwyntio ar welliannau "Mynediad i Bawb" mewn lleoliadau allweddol fel Queen's Head, Llanymynech, Y Trallwng ac Aberriw, a'u gwneud yn addas i gadeiriau gwthio a'r henoed.
- Chwilio am gyfleoedd i wella arwyddion a chysylltiadau i bentrefi lleol.
- Rhaglen dreigl i symud rhwystrau mewn pwyntiau mynediad allweddol, yn cynnwys camfeydd a giatiau diangen.
- Gwella pwyntiau mynediad ar ffyrdd a phontydd, gosod grisiau gwell, neu rampiau lle nad oes digon o le.
- Cynyddu teithiau cylchol a chysylltiadau i bentrefi lleol ac atyniadau eraill i ymwelwyr.

Beicio
- Mae'n rhaid ariannu gwaith adeiladu a chynnal y datblygiadau (e.e. trwy awdurdodau priffyrdd), a bydd y Bartneriaeth yn sicrhau bod cynigion yn gydnaws â defnyddwyr eraill. Ni fydd yna uwchraddio mawr ar gyfer beicio cyflym.

Marchogaeth
- Lle bo'n bosib, bydd y llwybr halio wrth brif groesfannau ffyrdd newydd yn cael ei gynllunio i bobl gael mynediad ar droed.

Pysgota
- Datblygu cysylltiadau gyda Chymdeithas Pysgota Sir Drefaldwyn.
- Gweithio gyda thirfeddianwyr cyfagos sydd â diddordeb mewn pysgodfeydd masnachol posib.

Addysg
- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth ategu trefniadau eraill, yn enwedig Amgueddfa Powysland, a Llanymynech.
- Gofalu bod mynediad a dehongli ar gael i'r cyhoedd mewn gwarchodfeydd natur newydd.
- Cefnogi a datblygu cyfraniad gwirfoddolwyr i'r rhaglen addysg gyfredol.
- Annog defnydd y gamlas fel adnodd i addysg bellach ac addysg uwch, a phrosiectau ymchwil myfyrwyr.
- Datblygiad posib Burgedin fel canolfan addysg.

Parcio a mynediad
- Datblygu rhwydwaith meysydd parcio bach lleol ymhellach.
- Cefnogi mentrau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu â'r gamlas.

Y Gymuned
- Hyrwyddo a chefnogi datblygiad Cyfeillion Camlas Maldwyn.
- Gweithio gyda grwpiau defnyddwyr eraill yn y gymuned yn cynnwys cerddwyr, grwpiau treftadaeth, prosiectau celf yn y gymuned a chymdeithasau trigolion.

ADFYWIO GWLEDIG

Bydd angen i gyllid ar gyfer gwaith adfywio ddod o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn cynnwys Ewrop, asiantaethau datblygu rhanbarthol, awdurdodau lleol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, mae'n debyg. Mae'n hanfodol bod y gwaith adfer yn bodloni ystod eang o feini prawf, i gyflawni polisïau ac amcanion yr asiantaethau hyn. Ffactor allweddol yn hyn o beth fydd gallu dangos bod y gwaith adfer yn mynd i arwain at greu swyddi ac yn mynd i weithredu fel cyfrwng adfywio cynaliadwy yn y coridor ehangach. Dyma pam fod **y gwaith adfer yn cynnig dull "hamdden a thwristiaeth gynaliadwy" ehangach, gyda'r gamlas yn gyfrwng allweddol ar gyfer defnyddwyr amrywiol sydd angen yr un cyfleusterau sylfaenol.**

Felly bydd ymwelwyr â'r gamlas yn gwario arian mewn siopau lleol yn ogystal ag ar y gamlas a bydd cyfleusterau newydd yn gysylltiedig â'r gamlas yn darparu gwasanaethau i bobl leol ac ymwelwyr eraill hefyd. Mae'r gamlas hefyd yn cael ei defnyddio fel pwynt gwerthu ansawdd bywyd yn ardal y Trallwng, wrth geisio denu busnes newydd i'r ardal, ac mae angen ystyried a mesur y ffactorau hyn lle bo'n bosib. Mae astudiaeth economaidd ategol gan Rural Solutions yn helpu i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol i barhau â cheisiadau cyllido amrywiol ac mae'r Bartneriaeth yn ymrwymedig i'r dull "coridor eang" hwn.

Amcangyfrifwyd y bydd gwaith adfer cam un yn creu tua 100-120 o swyddi hirdymor, ond gallai hyn gynyddu i 250-300 gyda datblygiadau cysylltiedig. **Mae'r pwyslais ar dwristiaeth werdd, mwy o gerdded ac ati yn golygu bod niferoedd y swyddi sy'n cael eu creu yr un fath ag mewn cynlluniau blaenorol gyda mordwyo heb gyfyngiadau.** Byddai'r gwaith adeiladu yn creu swyddi ychwanegol. Rydym yn bwriadu gweithredu polisïau i annog defnyddio cyflenwyr lleol, i helpu i gadw arian yn yr economi lleol, ac i greu cymaint o swyddi â phosib yn lleol. Un ffordd o gyflawni hyn yw'r polisi sy'n ffafrio arallgyfeirio ar ffermydd i greu angorfeydd ar gyfer cychod.

Roedd cynlluniau blaenorol yn nodi safleoedd penodol ar gyfer marinas mawr posib. Disodlwyd y cynlluniau hyn, ac mae cynigion datblygu eraill (angorfeydd a chyfleusterau bach, cyfleoedd twristiaeth/hamdden cynaliadwy a gwarchodfeydd natur newydd gyda chyfleusterau priodol) naill ai wedi'u nodi ar y mapiau hyn neu yn cael eu cefnogi a'u hannog ar gyfer y safleoedd trwy ymgynghori â'r perchnogion.

RHAN GOGLEDD LLOEGR O'R GAMLAS (FRANKTON I CRICKHEATH)



Hyd y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Gwyrdd	Buddiant gwarchod natur
Brown	Gwerth treftadaeth adeiledig
Coch	Gwaith peirianneg mawr
Glas	Cyfleusterau i ymwelwyr

ADRAN SYCH A RHAN OGLEDDOL CYMRU O'R GAMLAS O CRICKHEATH I LOC BANC





Hyd y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Gwyrdd	Buddiant gwarchod natur
Brown	Gwerth treftadaeth adeiledig
Coch	Gwaith peirianneg mawr
Glas	Cyfleusterau i ymwelwyr

RHAN GANOL CYMRU O'R GAMLAS – BURGEDIN I ARDAL ABERRIW



Hyd y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Gwyrdd	Buddiant gwarchod natur
Brown	Gwerth treftadaeth adeiledig
Coch	Gwaith peirianneg mawr
Glas	Cyfleusterau i ymwelwyr

RHAN DDEHEUOL CYMRU O'R GAMLAS – ABERRIW I'R DRENEWYDD



Hyd y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Gwyrdd	Buddiant gwarchod natur
Brown	Gwerth treftadaeth adeiledig
Coch	Gwaith peirianneg mawr
Glas	Cyfleusterau i ymwelwyr

Y CAMAU NESAF

Ymrwymo i weithredu

Unwaith y bydd y strategaeth hon wedi ei chytuno, bydd aelodau'r Bartneriaeth yn gweithio i ddatblygu a gweithredu'r syniadau a geir yn y ddogfen. Bydd y gwaith o gasglu gwybodaeth a chyflwyno ceisiadau manwl am arian yn cymryd nifer o fisoedd, a bydd cyflymder cynnydd yn dibynnu ar lwyddiant y broses hon. Mae ymrwymiadau cychwynnol gan Bartneriaid wedi'u rhestru isod:

Y bartneriaeth yn ei chyfanrwydd:

- Cyfrannu at dîm gweithredu'r prosiect.
- Datblygu a chefnogi ceisiadau am arian ar gyfer Gwaith Blaenoriaeth yng Nghymru a Lloegr.
- Cytuno ar gytundebau cynnal a chadw y dyfodol.

Dyfrffyrdd Prydain

- Gweithio gyda'r Cyngor Cefn Gwlad i lywio'r cynigion hyn drwy broses Rheoliadau Cynefinoedd Ewropeaidd.
- Astudiaethau peirianyddol ar gyfer y rhan sych i Lanymynech.
- Cyflwyno mesurau cadwraeth yn y sianel.
- Cynllunio pellach a nodi safleoedd posib am warchodfeydd natur newydd.
- Cysoni rhaglen waith fawr Dyfrffyrdd Prydain ar asedau mawr sydd mewn perygl e.e. Pont Ddŵr Efyrnwy, gyda rhaglen adfer fel arian cyfatebol.
- Datblygiad parhaus cysylltiadau â'r gymuned, a chynlluniau gwella lleol.

Awdurdodau Lleol

- Ymrwymiad parhaus i gytundebau cynnal a chadw cyfredol.
- Defnyddio Strategaeth i baratoi dogfennau cynllunio ategol priodol er mwyn sicrhau dull coridor ehangach gan drydydd partion.
- Datblygu briffiau cynllunio ar gyfer datblygiadau coridor cysylltiedig e.e. Queen's Head.

Asiantaethau eraill y Llywodraeth

- Cymryd rhan ehangach mewn materion ansawdd dŵr, yn cynnwys swyddogaeth reoleiddio Asiantaeth yr Amgylchedd, a defnyddio cynlluniau grant Gwella Bywyd Gwyllt a Thir Gofal.
- Partneriaeth rhwng Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac English Nature wrth sefydlu a rheoli gwarchodfeydd natur yn y dyfodol.
- Systemau datblygu cryf i gydweithio ym maes monitro, rheoli a chynaliadwyedd.

Cymdeithasau Camlesi a Grwpiau Gwirfoddol

- Parhau i gefnogi a datblygu cysylltiadau â'r gymuned (MWRT).
- Adfer Loc Tŷ Newydd (SUCS).
- Gwaith adfer Glanfa Llanymynech (SUCS).
- Hyrwyddo cynigion adfer ymysg aelodau.
- Datblygu defnydd ehangach o'r gamlas.
- Staffio Pwynt Gwybodaeth Llanymynech a'r busnes cychod taith (FoMC, Ymddiriedolaeth Duchess Countess).

Cyhoeddwyd ar ran Partneriaeth Camlas Maldwyn, d/o Dyfrffyrdd Prydain, Swyddfeyd y Gamlas, Birch Road, Ellesmere, Sir Amwythig SY12 9AA.

Atgynhyrchwyd o fapiau'r Arolwg Ordnans ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron. 8L100019843 Tachwedd 2005.